OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 2961 (Cy.278) (C.108)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud - - 18 Tachwedd 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216, (4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2003.

**2.** Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn unig.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at Rannau, adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at Rannau ac adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

**Diwrnodau penodedig**

**4.** 1 Rhagfyr 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**5.** 4 Rhagfyr 2003 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**6.** 1 Ionawr 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan III o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

**7.** 9 Ionawr 2004 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan IV o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**1**) 2002 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*

18 Tachwedd 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

**YR ATODLEN** Erthyglau 4, 5, 6 a 7

# RHAN I

## Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2003

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 46 | Fforymau Derbyn |
| Adran 188 i'r raddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 16 isod | Arolygiadau ysgolion |
| Atodlen 16, paragraffau 1 i 3 | Diwygiadau i Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996 |

# RHAN II

## Darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Rhagfyr 2003

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 41 | Penderfyniad cyllideb benodedig yr AALl |
| Adran 42 | Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i osod lleiafswm cyllideb ysgolion |
| Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 21, | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Paragraff 100 (1) a (2), | |
| Paragraff 113 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym ac eithrio is-baragraffau (a), (b) ac (f), | |
| Paragraff 125, | |
| Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu — | Diddymiadau |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**), | |
| Adran 46, | |
| Yn adran 143, y cofnod mewn perthynas â “local schools budget”. | |

(**3**) 1998 p.31.

# RHAN III

## Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2004

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adrannau 157 i 171 | Rheoleiddio ysgolion annibynnol |
| Adrannau 172 i 174 | Ysgolion annibynnol: plant ag anghenion addysgol arbennig |
| Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 21 | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Paragraff 122(b), | |
| Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu — | Diddymiadau |
| Deddf Pensiynau ac Ymddeoliad Barnwyr 1993(**4**), yn Atodlen 5, y cyfeiriad at “Chairman of an Independent Schools Tribunal”, yn Atodlen 7, paragraff 5(5) (xxvii), | |
| Deddf Addysg 1996, adrannau 464 i 478, adran 537(9) a (10), yn adran 568, yn is-adran (2) y geiriau “section 468, 471(1) and 474”, yn is-adran (3) y geiriau o “section 354(6)” hyd at “401” ac is-adran (4), yn adran 580, y cofnodion sy'n ymwneud â “register, registration; registered school; Registrar of Independent Schools”, Atodlen 34, | |
| Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996(**5**), yn adran 10, is-adran (3)(e) ac, yn is-adran (4B), paragraff (f) a'r “or” blaenorol, yn adran 11(5), ym mharagraff (a), “e”, yn adran 20(3), paragraff (b) a'r “or” blaenorol, yn adran 21, yn is-adran (4), paragraff (b) a'r “or” blaenorol, yn Atodlen 3, yn y diffiniad o “appropriate authority” ym mharagraff 1, ym mharagraff (c), “e”, | |
| Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**6**), yn adran 3, is-adran (3)(c), | |
| Deddf Safonau Gofal 2000(**7**), Adran 100, yn Atodlen 4, paragraff 24. | |

(**4**) 1993 p.8.
(**5**) 1996 p.57.
(**6**) 1998 p.30.
(**7**) 2000 p.14.

# RHAN IV

## Darpariaethau sy'n dod i rym ar 9 Ionawr 2004

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 51 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 4 isod | Plant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy |
| Adran 52(1) i (6) | Gwaharddiadau |
| Adran 207 awdurdodau addysg lleol | Adennill: addasu rhwng |
| Adran 208 | Adennill: achosion arbennig |
| Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Atodlen 4, paragraffau 1 a 4 neu fwy | Plant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o ddwy ysgol |
| Atodlen 21, | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Paragraff 1 ond i'r graddau y mae'n ymwneud â lwfansau ar gyfer panelau apêl yn erbyn gwaharddiad, | |
| Paragraff 2 ac eithrio is-baragraff (a), | |
| Paragraff 22 ond i'r graddau y mae'n amnewid paragraff 15(b) newydd o Atodlen 1 i Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992, | |
| Paragraff 27(1) a (2), | |
| Paragraff 112 ac eithrio i'r graddau y mae'n mewnosod y diffiniad o "foundation governor", | |
| Paragraff 113 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym ac eithrio is-baragraffau (b) ac (f), | |
| Yn Atodlen 22, Rhan 3, diddymu — | Diddymiadau |
| Deddf Llywodraeth Leol 1974(**8**), adran 25(5)(b), | |
| Deddf Addysg 1996(**9**), adran 492, Yn Atodlen 1, paragraff 7, | |
| Deddf Addysg 1997(**10**). Yn Atodlen 7, paragraff 36, | |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adrannau 64 i 68, Atodlen 18. | |

(**8**) 1974 p.7.
(**9**) 1996 p.56.
(**10**) 1997 p.44.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Rhagfyr 2003, 4 Rhagfyr 2003, 1 Ionawr 2004 a 9 Ionawr 2004 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn Rhannau I, II, III a IV o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cyfeiriadau isod at adrannau ac Atodlenni (heb fanylion pellach) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Yn achos darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn ac sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau hynny i'w darllen, mewn perthynas â Chymru, fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru — gweler adran 211.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen —

Mae adran 46 yn mewnosod adran 85A newydd o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"), yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau sefydlu fforymau derbyn yn unol â rheoliadau sydd i'w gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"). Bydd y fforymau yn cynghori AALlau ar faterion sy'n ymwneud â derbyniadau ysgol.

Mae adran 188 a pharagraffau 1 i 3 o Atodlen 16 yn diwygio Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Cymru roi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion yng Nghymru a rheolaeth arnynt, gan gynnwys a ydyw'r adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r wybodaeth hon hefyd i gael ei chynnwys mewn adroddiad gan arolygydd cofrestredig sy'n cynnal arolygiad o'r ysgol.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen —

Mae adran 41 yn mewnosod adran 45A newydd o Ddeddf 1998 sy'n ymwneud â threfniadau cyllido ar gyfer AALlau ac ysgolion. Cyflwynir diffiniadau newydd o "LEA budget" a "schools budget". Bydd rheoliadau yn nodi'r manylion.

Mae adran 42 yn mewnosod adrannau 45B a 45C newydd o Ddeddf 1998 sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i osod lleiafswm cyllideb ysgolion ar gyfer AALl os yw'r gyllideb a gynigir gan yr AALl yn annigonol neu os yw'r AALl wedi methu hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'i gyllideb arfaethedig.

Mae adran 215 ac Atodlenni 21 a 22 yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan III o'r Atodlen —

Mae adrannau 157 i 171 yn darparu ar gyfer system newydd i reoleiddio ysgolion annibynnol. Bydd rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 157 yn nodi'r safonau y bydd angen i ysgolion annibynnol eu bodloni. Mae adran 158 yn darparu ar gyfer parhau cofrestr o ysgolion annibynnol sydd i'w gadw gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae adran 159 yn ei gwneud yn dramgwydd i redeg ysgol annibynnol na chofrestrwyd mohoni ac mae'n rhoi hawl i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru fynd ar dir ac i adeiladau.

Mae adran 160 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys gan berchennog ysgol mewn cais i gofrestru a darparu ar gyfer y Prif Arolygydd i arolygu'r ysgol. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu o dan adran 161 a ydyw'r ysgol yn bodloni safonau'r ysgolion annibynnol oc os ydyw bydd yn cofrestru'r ysgol. O dan adran 162 gall y Cynulliad Cenedlaethol dynnu ysgol o'r gofrestr os bu newid perchennog, newid cyfeiriad neu newid penodedig mewn perthynas â'r disgyblion neu'r llety, ac na chafodd y newid hwnnw ei gymeradwyo. Mae adran 162 hefyd yn

gwneud darpariaeth mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer cymeradwyaeth. Mae adrannau 163 a 164 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag arolygu ysgolion annibynnol ac adroddiadau arolygu. Mae adran 165 yn darparu os nad yw ysgol yn bodloni safonau'r ysgolion annibynnol gall y Cynulliad Cenedlaethol dynnu'r ysgol o'r gofrestr neu ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol baratoi a gweithredu cynllun gweithredu. Mae adrannau 166 a 167 yn darparu ar gyfer hawl apelio i dribiwnlys a sefydlir o dan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, yn erbyn gwrthodiad i gymeradwyo newid perthnasol, penderfyniad i dynnu ysgol o'r gofrestr, gorchymyn i gymryd camau penodedig neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn o'r fath. Mae'r adrannau yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud apêl o'r fath a phwerau'r tribiwnlys.

Mae adran 168 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am ysgol yn cael ei darparu. Mae adran 169 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i dynnu ysgol o'r gofrestr os oes unrhyw berson yn gwneud gwaith yn yr ysgol yn groes i gyfarwyddyd neu orchymyn. Mae adran 170 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyflwyno hysbysiadau ac mae adran 171 yn cynnwys diffiniadau.

Mae adran 172 yn diwygio'r diffiniad o ysgol annibynnol yn adran 463 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") er mwyn iddo yn awr gynnwys ysgol y mae ganddi o leiaf un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol. Mae adran 173 yn diwygio adran 327 o Ddeddf 1996 i roi hawl mynediad i AALlau i ysgolion annibynnol i fonitro'r ddarpariaeth a wneir i blant ag anghenion addysgol arbennig. Mae adran 174 yn diwygio adran 347 o Deddf 1996 i ddarparu, pan roddir cydsyniad i leoliad plentyn mewn ysgol annibynnol, bod rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei fodloni bod lle ar gael yn yr ysgol.

Mae adran 215 ac Atodlenni 21 a 22 yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Dyma fydd effaith y darpariaethau a bennir yn Rhan IV o'r Atodlen —

Mae adran 51 ac Atodlen 4, paragraffau 1 a 4, yn diwygio adran 87 o Ddeddf 1998 (sy'n tynnu'r gofyniad i dderbyn plentyn a gafodd ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy). Mae adran 87 o Ddeddf 1998, fel y'i diwygiwyd, yn darparu na ddylid ystyried bod plentyn wedi'i wahardd yn barhaol pe bai corff llywodraethu neu banel gwahardd wedi cyfarwyddo bod y plentyn i'w dderbyn yn ôl i'r ysgol, pe bai wedi bod yn ymarferol ac yn briodol i wneud hynny.

Mae adran 52(1) i (6) yn rhoi'r pŵer i bennaeth ysgol a gynhelir, a'r athro neu'r athrawes sydd â gofal uned cyfeirio disgyblion, i wahardd disgybl ar sail disgyblu. Mae'r gweithdrefnau mewn perthynas â gwahardd, derbyn yn ôl ac apelau i'w nodi mewn rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae adran 207 yn ailddeddfu adran 492 o Ddeddf 1996 a darparu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau mewn perthynas ag adennill rhwng awdurdodau. Mae adran 208 yn trosglwyddo'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau o dan adran 493 o Ddeddf 1996, sy'n ymwneud ag adennill mewn perthynas â disgyblion wedi'u gwahardd yn barhaol.

Mae adran 215 ac Atodlenni 21 a 22 yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru trwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 14 i 17 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 18(2) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 19(6) (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adrannau 27 a 28 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 29 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 40 (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 43 | 1 Tachwedd 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 49 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 54 i 56 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 60 i 64 | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 75 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 97 a 98 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 99(1) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 100 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 101 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 103 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 105 i 107 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 108 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 109 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 111 i 118 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 119 | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Adran 120(1) a (3) i (5) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Adran 120(2) | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| Adran 121 | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Adran 122 i 129 | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| Adran 130 (yn rhannol) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| (yn llawn) | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| Adran 131 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 132 a 133 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 134 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 135 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 136 i 140 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 141 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 142 i 144 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 145 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 146 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 148 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 149 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 150 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 151(2) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 152 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 178(1) a (4) | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 179 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 180 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 181 i 185 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 188 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 189 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 191 i 194 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 195 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn llawn) | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 196 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 197 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 199 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 200 | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adran 201 (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Adrannau 202 a 203 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 206 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Adran 215 (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) a 2003/1667 |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301) a 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 1, paragraff 3 (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 3, paragraffau 1 i 5 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 5 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 10, paragraffau 1, 6, 11 a 15 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 11 | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| Atodlen 12, paragraffau 1, 2, 4(1) a (3), 6 a 7, | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Paragraff 12(1) a (2) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 13, paragraffau 1 i 3, 5, 6, 7(1) a (3) ac 8 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 16, paragraffau 4 i 9 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 17, paragraffau 5(1) i (4), (6) a 6 i 8 | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 18, paragraffau 1, 4, 5 a 7, | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraff 8 (yn rhannol), | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraffau 13 i 15, | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Paragraffau 2, 3, 6, 8 (yn llawn), 9 i 12 ac 16 i 18 | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| Atodlen 19 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 20 | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 21 (yn rhannol) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| (yn rhannol) | 19 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2003 | 2003/1667 |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| Atodlen 22 (yn rhannol) | 1 Hydref 2002 | 2002/2439 |
| (yn rhannol) | 9 Rhagfyr 2002 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 31 Mawrth 2003 | 2002/3185 (Cy.301) |
| (yn rhannol) | 1 Awst 2003 | 2003/1718 (Cy.185) |
| (yn rhannol) | 1 Medi 2003 | 2002/3185 (Cy.301), 2003/1718 (Cy.185) a 2003/1667 |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2002/2002 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2018), O.S. 2002/2439, O.S. 2002/2952, O.S. 2003/124, O.S. 2003/1115, O.S. 2003/1667 ac O.S. 2003/2071.